**Datganiad Deddfwriaethol am Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2009 – 14/07/09**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Sgiliau (Brian Gibbons):** Mae'n bleser gennyf gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch llywodraeth leol. Fel y tanlinellwyd yn gynharach yn natganiad y Prif Weinidog, mae'r LCO arfaethedig yn rhan allweddol o'n rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y sesiwn nesaf. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gosod gwerth aruthrol ar rolau a statws llywodraeth leol yng Nghymru. Pwrpas yr LCO arfaethedig yw galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu er mwyn cryfhau rôl cynghorau tref a chymuned. Mae hefyd yn bwriadu chwalu rhwystrau ac anghymelliadau sy'n cadw pobl rhag sefyll i gael eu hethol ar gynghorau cymuned a chynghorau unedol. Er crynoder, dylid cymryd bod cyfeiriadau yn y datganiad hwn at gynghorau cymuned yn golygu cynghorau cymuned a thref, ill dau.

Mae cyd-destun polisi'r LCO arfaethedig yn deillio o dri adolygiad annibynnol a diweddar i wahanol agweddau ar lywodraeth leol yng Nghymru: adroddiad Aberystwyth ynghylch cynghorau cymuned, archwiliad y panel arbenigol ynghylch recriwtio a chadw cynghorwyr, ac adolygiad y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr.

Yn gyntaf, byddai'r LCO arfaethedig yn rhoi i'r Cynulliad y cymhwysedd i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y cyfyngiadau sy'n wynebu cynghorau cymuned, a bennwyd yn adroddiad Aberystwyth, 'Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol', a gyflawnwyd gan Brifysgol Aberystwyth. Wedi ystyried adroddiad Aberystwyth, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i gyflwyno cynigion i ddatblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned. Y nod cyffredinol fydd cynyddu effeithiolrwydd cynghorau cymuned yn eu rôl swyddogaethol a chynrychioladol, a hwyluso eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Byddai'r LCO arfaethedig yn rhoi i'r Cynulliad y cymhwysedd i ystyried ystod o gynigion, y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflwyno mewn Mesur llywodraeth leol arfaethedig yn ddiweddarach yn y sesiwn hon.
Cynlluniwyd yr LCO arfaethedig hefyd i alluogi'r Cynulliad i ymateb i waith dau banel adolygu: panel arbenigol Comisiwn y Cynghorwyr yng Nghymru, a fu'n ystyried ystod o faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw cynghorwyr, a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr, sy'n adolygu'r strwythur cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru, gan gynnwys cyflogau, lwfansau a phensiynau sy'n daladwy i gynghorwyr.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau galluogi'r Cynulliad i ddeddfu er mwyn annog cyfranogaeth ehangach a chynyddol mewn llywodraeth leol. Bu'n bryder ers rhai blynyddoedd bod y gronfa y tynnir cynghorwyr gweithredol ohoni braidd yn gul a bod cynrychiolaeth nifer o sectorau allweddol yn ddifrifol o wael. Mae'r sefyllfa honno'n amddifadu ein cynghorau o'r ystod lawn o brofiad ac arbenigedd y mae eu hangen arnynt er mwyn cyflawni eu hamrywiol rolau.

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau sicrhau bod cynghorwyr ar lefel gymunedol ac ar lefel unedol, y naill a'r llall yn cael eu tynnu o'r ystod helaethaf o bobl a'u bod yn fwy nodweddiadol o'r cymunedau a wasanaethant. Mae'r panel arbenigol a'r panel ar gydnabyddiaeth ariannol wedi bod yn ystyried yr hyn yr ydym yn eu gweld fel rhwystrau ac yn anghymhellion i bobl rhag sefyll mewn etholiadau ar gyfer y cynghorau hyn. Yr ydym yn aros am adroddiadau terfynol y ddau banel a byddwn yn ystyried eu casgliadau ac unrhyw argymhellion y byddant yn eu gwneud yn ofalus iawn. Byddai Mesur llywodraeth leol yn ddiweddarach yn y sesiwn yn gyfrwng i'r Cynulliad ddeddfu i roi'r cynigion a fyddai'n deillio o waith y ddau banel ar waith.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol eisoes yng nghyswllt nifer o agweddau ar lywodraeth leol yng Nghymru. Amlinellir y rhain ym maes 12 Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd y Gorchymyn hwn yn trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ehangach i'r Cynulliad na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i'r Cynulliad na'r pŵer is-ddeddfwriaeth presennol sydd gan Weinidogion Cymru. Nid oes gan y Cynulliad na Gweinidogion Cymru y pŵer ar hyn o bryd i ddeddfu ar gyfer newidiadau sylweddol yn y gyfraith mewn meysydd sy'n cael sylw yn yr LCO arfaethedig: cynghorau cymuned, adolygiadau cymunedol, cysylltiadau rhwng haenau o lywodraeth leol, lwfansau cynghorwyr a recriwtio a chadw cynghorwyr.

Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a fyddai'n cael ei drosglwyddo gan y Gorchymyn arfaethedig yn rhagofyniad

angenrheidiol i alluogi'r Cynulliad i wneud newidiadau yn y gyfraith yn y meysydd hyn drwy gyfrwng Mesurau. Ein bwriad yw gwneud cynigion ar gyfer deddfwriaeth briodol mewn Mesur llywodraeth leol yn ddiweddarach yn y sesiwn. Bydd manylion y Mesur arfaethedig a gyflwynir yn cael eu cwblhau'n nes at yr amser. Mae nod yr LCO arfaethedig yn amlwg yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel. Bydd yr LCO arfaethedig hefyd yn ein galluogi i sicrhau bod cynghorau lleol yn ymestyn at, ac yn ymgysylltu â phob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.

Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig sy'n ymwneud ag ansawdd ein democratiaeth a'r gwasanaethau a ddarperir i bobl leol. Edrychaf ymlaen at weithio ag Aelodau'r Cynulliad ac eraill sydd â diddordeb yng nghyflwr llywodraeth leol i graffu ar yr LCO arfaethedig ac, yn y man, i weithio i ddatblygu'n cynigion ar gyfer Mesur arfaethedig ar lywodraeth leol.

**Darren Millar:** Yn gyntaf, diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw ac am y cyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig pwysig hwn. Mae democratiaeth leol yn rhywbeth y mae fy mhlaid yn credu'n angerddol ynddo, ac yr wyf yn falch o'i weld ar yr agenda eto yma yn y Cynulliad. Fel rhywun sy'n credu mewn gwir ddatganoli, credaf ei bod yn drist iawn gweld yn ystod y 10 mlynedd diwethaf sut y mae un Llywodraeth ar ôl y llall yn y Cynulliad wedi bod yn micro-reoli busnes llywodraeth leol gyda chyfarwyddyd cynyddol ragnodol a grantiau wedi'u neilltuo, a oedd i bob pwrpas yn golygu llai o gyfleoedd i gynghorwyr a etholwyd yn lleol i benderfynu beth sydd orau iddynt hwy a'u cymunedau. Mae cynghorau tref a chymuned yn fwyaf arbennig yn aml yn teimlo nad oes ganddynt y modd i roi sylw i'r materion sy'n bwysig yn eu hardaloedd. Nid oes amheuaeth nad oes angen cynyddu a chryfhau eu rôl. Dyna pam yr wyf yn falch o ddweud bod fy mhlaid yn croesawu'r LCO arfaethedig hwn. Edrychwn ymlaen at graffu ar y manylion yn ystod y cam pwyllgor.

Yn ei ddatganiad, cyfeiriodd y Gweinidog at dri adolygiad sydd wedi cyfrannu at ffurfio'r LCO arfaethedig hyd yma, a chyhoeddwyd un ohonynt—adroddiad Aberystwyth—yn 2004. Nid yw'r ddau arall—ymchwiliad y panel arbenigol i recriwtio a chadw cynghorwyr ac adolygiad y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr—wedi cyflwyno'u hadroddiadau eto. A chofio hyn, tybed a yw'r LCO arfaethedig hwn yn gynamserol braidd, yn enwedig wrth gofio y gallai'r adolygiadau hyn argymell y dylid rhoi pwerau ehangach na'r rheini sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas yr LCO arfaethedig hwn. Credaf y dylem aros am ganlyniad yr adolygiadau hyn cyn ceisio cael cymhwysedd deddfwriaethol pellach yn y maes hwn. Efallai y gallech gynnig sylw ar hynny yn eich ateb, Weinidog.

Ar ôl edrych yn fanylach ar y papurau a ddarparwyd gyda datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ddoe, yr wyf yn bryderus hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio'i gwneud yn anos i'r dinesydd cyffredin sbarduno etholiadau cymunedol neu refferenda lleol. Yn ôl y trefniadau presennol, deallaf ei bod yn rhaid cael un ai 300 neu 30 y cant o'r etholwyr mewn cymuned i sbarduno refferendwm lleol, ac eto deallaf eich bod yn bwriadu codi'r trothwy hwn os bydd pwerau'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad. A allwch egluro eich safbwynt yn hynny o beth, os gwelwch yn dda, Weinidog? Pa drothwy fyddech yn ei bennu yn y dyfodol? Mae fy mhlaid i, yn un, yn sicr am roi pwerau'n ôl yn nwylo'r dinesydd cyffredin pan fo hynny'n bosibl, a pheidio â chymryd y pwerau sydd ganddynt eisoes oddi arnynt.

Ar fater lwfansau ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned, mae Cymru wedi cael ei gwasanaethu'n dda dros ben gan gynghorwyr tref a chymuned gwirfoddol dros y blynyddoedd.

Felly, yr wyf yn amheus a fyddai'r cyhoedd yn cefnogi'r syniad o lwfansau i gynghorwyr, yn enwedig cynghorwyr tref a chymuned, ar hyn o bryd. Gwyddom hefyd fod gan lawer o gynghorau cymuned bach braeseptau isel iawn a fyddai'n ei gwneud yn anodd dros ben iddynt ariannu lwfansau o'r fath. Efallai y gallwch ddweud wrthym a ydych yn bwriadu cyflwyno lwfansau ar gyfer yr haen arbennig hon o lywodraeth. Yr wyf yn amau a yw unrhyw gydnabyddiaeth ariannol yn angenrheidiol nac yn ddymunol.

Mae'r adroddiad 'Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol' gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth, yn argymell cyflwyno grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynghorau tref a chymuned. Sylwaf fod hyn yn rhywbeth sydd wedi'i gynnwys yn y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig—mae llinell ynddo a fyddai'n galluogi Llywodraeth y

Cynulliad i dalu grantiau'n uniongyrchol. Efallai y gallech ein goleuo drwy ddweud wrthym sut y byddai grantiau o'r fath yn cael eu hariannu ac a fyddech yn dwyn oddi ar un i dalu'r llall drwy ddidynnu unrhyw arian yr oeddech am ei roi i gynghorau tref a chymuned o'r grant cynnal refeniw, sy'n daladwy i awdurdodau lleol. Os ydych yn cynnig hynny, byddai'n annerbyniol, yn fy marn i, oherwydd deallaf mai'r bwriad yn y lle cyntaf yw defnyddio grantiau i dalu am isetholiadau cynghorau cymuned yn benodol, sy'n rhywbeth i'w ganmol yn fy marn i. Yr ydym i gyd wedi gweld, yn llawer rhy aml, adegau pan fo cynghorau cymuned unigol wedi cyfethol pobl yn ddiangen am nad ydynt wedi hysbysebu'n briodol y seddi sydd ar gael. Yn amlwg, bydd goblygiadau cost ynghlwm wrth hynny, a dylai fod yn hawdd canfod hynny ar sail nifer yr isetholiadau a gynhelir dros dymor arferol o bedair blynedd. Efallai y gallech gyfeirio at hynny yn eich ateb.

Croesawaf hefyd fwriad y Gweinidog i gyflwyno Mesurau arfaethedig i annog cyfranogiad ehangach mewn llywodraeth leol. Dywedwyd eisoes, yn llawer rhy aml, fod cynrychiolwyr llywodraeth leol a chynghorwyr yn ddynion, yn ddifflach, ac yn ddigynnig, a chredaf fod gwirionedd yn y geiriau a bod angen rhoi sylw i'r mater. Gorau po gyntaf y gwelwn Fesurau'n cael eu cyflwyno sy'n delio â hynny. Ni chredaf mai cyfethol pobl iau, sydd o dan oed pleidleisio, ar gynghorau cymuned yw'r ffordd orau o reidrwydd i roi sylw i'r broblem honno.
Yn olaf, yn ystod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, ar drefniadau craffu mewn llywodraeth leol, soniasoch am eich bwriad i gyflwyno Mesur arfaethedig yn y maes arbennig hwnnw. A oes angen yr LCO arfaethedig hwn i roi mwy o bwerau i'r Cynulliad i ddelio â'r gefnogaeth ar gyfer trefniadau craffu mewn llywodraeth leol, ynteu a yw'n rhywbeth y gallwch ei roi ar y trywydd cyflym a'i redeg yn gyfochrog? Efallai y gallech ddweud hefyd wrthym pryd yr ydych yn disgwyl gallu cyflwyno'r Mesur llywodraeth leol arfaethedig a grybwyllwyd gennych yn eich datganiad gerbron y Cynulliad.
**Brian Gibbons:** Diolch ichi am y croeso positif ar y cyfan. Yr oedd cryn dipyn o gwestiynau, ac yr oedd ergyd braidd yn ddifflach, gwrywaidd a digynnig yn y gynffon. Fodd bynnag, ceisiaf ddelio â'r materion a godwyd.

Diben yr ymarferiad yw cryfhau rôl a pherthnasedd cynghorau cymuned a thref a chreu bywyd mwy dynamig, democrataidd yn ein cymunedau ledled Cymru, sy'n ganolog i'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni.
Nid wyf yn siŵr a wyf yn cytuno bod yr LCO arfaethedig yn cael ei gyflwyno'n gynamserol. Mae'r LCO arfaethedig yn ceisio sicrhau cymhwysedd cyfreithiol dros amrywiaeth o faterion. Ar hyn o bryd, nid yw'n cynnwys manylion yr hyn yr ydym am ei benderfynu. Gwyddom yn fras ar ba feysydd y mae'r grŵp arbenigol ar gynghorwyr yn edrych; felly, drwy gael cymhwysedd cyfreithiol dros y mater hwn, yr ydym yn cynnwys y maes hwnnw. Fodd bynnag, nid ydym yn cyflwyno cynigion manwl cyn cyhoeddi adroddiad y grŵp arbenigol. Yn yr un modd, mae'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i awdurdodau lleol wedi dweud yr hoffai weld mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y mae'n rhoi sylw i'r materion hyn heb fod yn arbennig o ragnodol, ond gan nad oes gennym y cymhwysedd cyfreithiol, mae hynny'n amlwg yn cyfyngu ei hyblygrwydd. Os ydym am gael cymhwysedd cyfreithiol, byddai hynny'n cynyddu amrywiaeth yr opsiynau a fyddai ar gael i'r panel wrth geisio llunio cyfres o gynigion, a fyddai'n annog cyfranogiad pellach mewn democratiaeth etholedig yng Nghymru.

Mae'r diben sydd wrth wraidd y cynigion o ran yr etholiadau'n gwbl groes bron i'ch pryderon chi. Yr ydym am ei gwneud yn haws i sefydlu cynghorau cymuned a thref yng Nghymru ac, os rhywbeth, ei gwneud yn anos i'w diddymu. Felly, yr ydym o'r un farn o safbwynt hynny. Gallaf eich sicrhau nad hynny yw ein bwriad; mae ein bwriad yn gwbl groes i hynny. Nid oes gan oddeutu 30 y cant o boblogaeth Cymru gyngor tref neu gymuned. Byddem yn gobeithio y byddai'r cynnig arbennig hwn yn ei gwneud yn haws i'r cymunedau hynny gael cyngor cymuned a thref.
Y nod hefyd yw rhoi rhywfaint o warchodaeth iddynt os oes yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd. Weithiau, mae cynghorau cymuned neu dref wedi cael eu diddymu am eu bod wedi gwneud rhai dewisiadau anodd ynghylch materion lleol ac mae grwpiau budd wedi dod at ei gilydd i bleidleisio i'w diddymu. Nid ydym am weld cynghorau cymuned a thref yn cael eu diddymu mor rhwydd oherwydd rhyw fater arbennig o ddadleuol. Felly, yr ydym yn cytuno ar hynny i bob pwrpas.

Yr wyf wedi delio â mater cydnabyddiaeth ariannol. Nid ydym yn disgwyl i gynghorwyr cymuned a thref dderbyn cydnabyddiaeth ariannol. Fodd bynnag, mae'r panel annibynnol sy'n adolygu cydnabyddiaeth ariannol i gynghorau unedol wedi awgrymu yr hoffai weld mwy o hyblygrwydd wedi'i dargedu'n benodol at eu sefyllfa hwy.

Y brif ffordd o ariannu cynghorau cymuned a thref yw drwy'r praesept lleol. Mae hynny'n cyfyngu faint o arian y gall cynghorau tref a chymuned ei dderbyn. Mae hefyd yn ei gwneud yn anos iddynt gael gafael ar arian o

ffynonellau eraill, megis arian y Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol neu hyd yn oed arian y loteri ar adegau. Felly, yn ogystal â'i gwneud yn bosibl i roi grantiau uniongyrchol i gynghorau cymuned a thref, dylai hefyd, gobeithio, roi mwy o sicrwydd cyfreithiol i gynghorau cymuned a thref i allu cael gafael ar arian o ffynonellau eraill heblaw drwy'r praesept.

Mae'n bwysig ein bod yn cynyddu'r nifer sy'n cyfrannu at waith cynghorau cymuned a thref. Er nad yw un cynnig penodol i ganiatáu pobl ifanc i eistedd ar gynghorau cymuned a thref yn mynd i newid diwylliant gwleidyddol Cymru dros nos, rhaid inni wneud ein democratiaeth yn fwy perthnasol i bobl ifanc, oherwydd gwyddom oll fod tystiolaeth etholiadau a thystiolaeth ymchwil yn dangos nad yw pobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Yr unig ffordd o'u hannog i gyfranogi mewn democratiaeth yw drwy roi rôl bendant iddynt. Mae'r cynigion yn yr LCO hwn yn un ffordd o wneud hynny.

Mae'r pwynt ynghylch craffu a godwyd gan Darren yn rhywbeth a gaiff sylw yn y Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu, sydd ar ei daith drwy ddau Dŷ'r Senedd ar hyn o bryd a, gobeithiwn a fydd wedi'i gwblhau erbyn yr haf, er ein bod wedi cael ar ddeall efallai na fydd wedi'i gwblhau tan fis Hydref. Fodd bynnag, gobeithiwn y bydd y broses honno wedi'i chwblhau cyn yr hydref ac y rhoddir Cydsyniad Brenhinol iddo. Bydd hynny'n rhoi'r cymhwysedd cyfreithiol inni i roi sylw i'r materion craffu a godwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn ei adroddiad.

**David Lloyd:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn ar gyfer llywodraeth leol a diolchaf i'w swyddogion am y brîff y bore yma. Yn naturiol, mae Plaid Cymru yn cefnogi'r athroniaeth sydd wrth wraidd unrhyw Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol gan fod unrhyw gynnydd ym mhwerau'r Cynulliad yn rhywbeth i'w groesawu. Fel yr amlinellodd y Gweinidog yn ei ddatganiad, pan ddaw'n fater o gynghorau cymuned, nid oes gan y Cynulliad na Gweinidogion Cymru bwerau ar hyn o bryd i ddeddfu dros gynghorau cymuned, adolygiadau cymunedol, cysylltiadau rhwng haenau o lywodraeth leol, lwfansau cynghorau a recriwtio a chadw cynghorwyr. Heb y pwerau hyn, nid oes llawer y gallwn ei wneud. Felly, mae angen athronyddol am y pwerau ychwanegol hynny arnom er mwyn rhoi sylw i rai o'r materion y mae dau o adolygiadau'r pwyllgor llywodraeth leol blaenorol a'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol presennol wedi eu dwyn i'n sylw fel Cynulliad.

Mae'r rhan fwyaf o'r LCO arfaethedig hwn yn ymwneud â chynghorau cymuned, er nad yw'n delio â'r rhain yn unig gan fod elfennau ohono'n ymwneud â chynghorau sir. Fodd bynnag, ymddengys fod y rhan fwyaf ohono wedi'i anelu at gynghorau cymuned. Mae oddeutu 700 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Mae ganddynt bwerau trethu, yn wahanol i'r Cynulliad, felly maent yn feincnod deddfwriaethol pwysig, ac efallai fod rhywfaint o bwerau trethu yn rhywbeth i'r Cynulliad ymgyrraedd ato.

Yn sicr, mae angen cryfhau'r hyn y mae cynghorau tref a chymuned yn ei wneud. Os ydynt gennym, gadewch inni fynnu eu bod yn gwneud gwahaniaeth. Mae pwynt yn yr LCO arfaethedig ynglŷn â'r angen i ddilysu perfformiad cynghorau cymuned yn briodol. Byddwn yn dychmygu y byddai unrhyw Fesurau dilynol—a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau hyn—yn anelu at werthuso a dilysu perfformiad cynghorau cymuned yn iawn.

O ran cyflwr cyffredinol democratiaeth ar lefel gymunedol, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei fwriad i dderbyn neu i fynd ar drywydd Mesurau pellach a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â phryderon am seddau gwag ar gynghorau cymuned, y lefel o seddau nad oes cystadleuaeth amdanynt ar lefel cynghorau cymuned, a'r cyfethol sydd weithiau'n digwydd ar lefel cynghorau cymuned? A all gadarnhau y byddai modd ymdrin â'r holl fathau hynny o faterion mewn unrhyw Fesurau a fyddai'n deillio o'r LCO arfaethedig hwn?

O ran y meysydd sy'n berthnasol i gynghorau sir, yr wyf eisoes wedi crybwyll, fel y gwnaeth Darren Millar, y gwaith craffu ar lywodraeth leol a wnaethpwyd mewn dau adroddiad gwahanol—un gan y cyn Bwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r llall gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol cyfredol. Tanlinellodd yr adroddiadau hynny yr holl gymorth cefndir y mae ar aelodau llywodraeth leol ei angen er mwyn craffu'n effeithiol. Mae hynny gennym yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i raddau helaeth, a byddai llawer ohonom am weld cynghorwyr sir yn cael yr un lefel o gymorth gan swyddogion fel y gallant graffu'n effeithiol ar waith llywodraeth leol. Mae gwell craffu'n golygu gwell democratiaeth yn y pen draw. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau felly ai ei fwriad, mewn unrhyw Fesurau dilynol, yw sicrhau bod cymorth craffu annibynnol yn deillio o'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig hwn ynghylch llywodraeth leol, ynteu a oes ffyrdd amgen o sicrhau un o elfennau allweddol argymhellion o leiaf ddau adroddiad pwyllgor ar graffu ym maes llywodraeth leol, sef pwysigrwydd cymorth craffu annibynnol i gynghorwyr sir?

**Brian Gibbons:** Mae'n siŵr bod cystal cynnwys yr hys-bys pleidiol ar y dechrau. Fel y blaid sydd wedi darparu datganoli i Gymru a'r blaid sy'n sefyll dros ddatganoli yng Nghymru, byddem yn croesawu unrhyw beth sy'n ehangu cymhwysedd y Cynulliad. Bydd yr LCO hwn yn bendant yn fodd, fel yr addefoch yn eich sylwadau, i sicrhau hynny.

Mae'r pwynt a wnaethoch am ddilysu gweithgarwch cynghorau cymuned yn bwysig. Os ydym am i gynghorau cymuned gael rôl fwy deinamig, gyda mwy o bwerau yn eu cymuned, yna, yn dibynnu ar faint yr her y maent yn ymgymryd â hi, byddai'n sicrhau'r trethdalwyr lleol a'r awdurdod unedol lleol petai modd dilysu bod y cyngor cymuned yn gymwys hyd at lefel neilltuol. Petai hynny'n digwydd, efallai y byddai mwy o barodrwydd i ddatganoli rhagor o bwerau i'r awdurdod lleol. Felly, yn ogystal â helpu cynghorau cymuned i ymgyrraedd at ragoriaeth, byddai'n ffordd bwysig o roi sicrwydd iddynt ynglŷn â'u cymhwysedd i ymdopi â dyletswyddau a chyfrifoldebau pellach petai'r cyfle yn cael ei roi iddynt.

Credaf eich bod yn iawn fod gallu cynghorau cymuned i fod yn ddemocratiaeth leol wirioneddol fywiog a deinamig yn cael ei chyfaddawdu'n barhaus gan seddau gwag a'r trefniadau siop gaeedig sydd yn aml yn bodoli o amgylch cyfethol. Gall fod yn anodd i bobl o grwpiau ehangach yn y gymuned, os nad ydynt yn perthyn i'r rhai sy'n weithgar yn wleidyddol yn y gymuned, gael eu pig i mewn. Mae angen inni allu agor y cyfleoedd hynny i'r ystod ehangaf o bobl weithgar yn y gymuned a dinasyddion eraill sy'n poeni am eu cymuned. Credaf y bydd yr LCO arfaethedig hwn yn rhoi cyfle inni i sicrhau bod y broses a ddilynir i lenwi seddau gwag, neu seddau nad oes cystadlu amdanynt, yn llawer mwy agored.

Mae hynny'n cysylltu â'r pwynt a wnaethoch am graffu: mae craffu effeithiol yn debygol o ddibynnu ar faint o adnoddau a chapasiti a neilltuir iddo. Fodd bynnag, os yw ein haelodau etholedig yn fwy nodweddiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, credaf y bydd ansawdd y craffu yn gwella. Gallwch ddychmygu y byddai llawer o bobl sydd â dyletswyddau fel gofalwyr, er enghraifft, yn ei chael yn anodd gwasanaethu ar awdurdodau lleol, ond pe gallem gyflwyno hyblygrwydd newydd yn y ffordd y gall pobl wasanaethu ar gynghorau tref a chymuned neu hyd yn oed awdurdodau unedol, rhywbeth y byddai ennill y cymhwysedd cyfreithiol hwn yn caniatáu inni ei wneud, yna gallem gael poblogaeth fwy nodweddiadol i fod yn rhan o'r broses graffu. Mae hynny o reidrwydd yn beth da.

**Peter Black:** Diolch ichi, Weinidog, am ddod â'r LCO arfaethedig hwn ger ein bron heddiw ac am y briffio a roddodd eich swyddogion inni'n gynharach—yr oedd o gymorth ac o fudd mawr. Yr wyf yn croesawu'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig sydd ger ein bron cyn belled ag y mae'n mynd. Mae adolygiad 2003 o'r cynghorau cymuned, y cyfeirir ato yn eich datganiad, ac yr ydych yn bwriadu ei weithredu drwy'r pwerau hyn, yn fusnes anorffenedig gan y Llywodraeth bartneriaeth gyntaf. Yr oedd yn rhan o'r ymrwymiadau yn y cytundeb rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur, felly croesawaf ein bod yn awr yn mynd i geisio cael y pwerau i weithredu rhai o'r cynigion ynddo nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith. Nid wyf am achub y blaen ar yr adolygiadau eraill sy'n dal heb eu cwblhau, er y bydd gennyf, wrth gwrs, farn i'w mynegi ar lwfansau a'r materion eraill pan ddônt ger ein bron. Ymgais yw hon i dynnu pwerau i lawr, yn hytrach na chyfle i drafod sut y mae'r pwerau hynny'n mynd i gael eu defnyddio.

Yr wyf am wneud yr hyn sydd yn fy marn i yn bwynt pwysig am gwmpas cyffredinol yr LCO arfaethedig ger ein bron. Gofynnodd Darren Millar a yw'r LCO arfaethedig yn gynamserol. Credaf ei fod nid yn gymaint yn gynamserol ag yn ddiuchelgais. Dywedaf hynny oherwydd, o'r datganiad yr ydych wedi'i roi inni, Weinidog, nodaf fod gennych rai targedau a syniadau uchelgeisiol, ond nid yw'r rheini yn ôl pob golwg yn cael eu hadlewyrchu yn yr hyn yr ydych yn ceisio'i wneud yn yr LCO arfaethedig. Tynnaf sylw at rai materion. Dywedwch eich bod am ddileu rhwystrau ac anghymhellion i bobl sefyll i gael eu hethol i gynghorau cymuned ac awdurdodau unedol yng Nghymru. Yr ydych am sicrhau bod cynghorwyr cymuned a chynghorwyr awdurdodau unedol yn cael eu denu o blith yr ystod ehangaf bosibl o bobl a'u bod yn fwy nodweddiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yr ydych am sicrhau bod cynghorau lleol yn ymestyn allan ac yn cysylltu â phob carfan o'r cymunedau y'u sefydlwyd i'w gwasanaethu, a gwella ansawdd ein democratiaeth. Sut gallwch chi wneud hynny oni ddiwygiwch chi'r system bleidleisio? Yn yr LCO arfaethedig, yr ydych yn benodol wedi eithrio etholfraint llywodraeth leol, cofrestru a gweinyddu etholiadol a'r system bleidleisio er ethol aelodau mewn etholiad o fater 12.9. Mae'n ymddangos i mi, os ydych yn wir o ddifrif am gysylltu â phobl, ehangu nifer y bobl sy'n ymwneud â llywodraeth leol, a gwneud cynghorau lleol yn fwy

perthnasol a chynrychiadol o'r gymuned, yna system bleidleisio deg yw'r ffordd ymlaen. Nid wyf yn dweud hynny o safbwynt ideolegol y Democratiaid Rhyddfrydol yn unig, oherwydd mae wedi cael ei brofi mewn rhannau eraill o'r DU, megis Gogledd Iwerddon a'r Alban; os gwnewch chi hynny, yr ydych yn cael cynghorau sy'n fwy cynrychiadol o'r gymuned. Yr ydych hefyd yn cael cynghorau lle mae mwy o gonsensws a lle mae'r craffu'n fwy effeithiol, oherwydd nid yw'r rhaniadau plaid sydd wedi tarfu ar lywodraeth leol mewn llawer rhan o'r DU ar waith i'r un graddau.

Y mater arall yw ein bod dan gysgod y sicrwydd o roesoch inni mewn perthynas ag ad-drefnu llywodraeth leol na fydd dim yn digwydd tan ar ôl 2011. Credaf fod pawb yn disgwyl i rywbeth ddigwydd ar ôl 2011 mewn perthynas ag ad-drefnu llywodraeth leol. Os caiff y pwerau sydd eisoes ar gael i chi fel Llywodraeth i ad-drefnu llywodraeth leol eu defnyddio yn y dyfodol i greu cynghorau mwy heb bleidleisio teg, byddai unrhyw berson rhesymol yn tybio efallai fod elfen o chwarae'r ffiniau er mwyn ailsefydlu gafael haearnaidd Llafur ar lywodraeth leol. Byddai hynny'n anffodus ac nid felly y dylem symud ymlaen.

Yr oeddwn wedi gobeithio hefyd y byddech wedi achub ar y cyfle i gael y pwerau ehangaf posibl o safbwynt deddfu ynghylch llywodraeth leol. Fodd bynnag, unwaith eto, nid ydych wedi gwneud hynny, oherwydd nid ydych wedi mynd i'r afael â'r mater hwn o bleidleisio'n deg ac yr ydych wedi'i ohirio, nes y cawn ni'r trafodaethau clymblaid nesaf mae'n debyg yn 2011. Nid dyna'r ffordd i redeg Cymru nac i gynllunio ar gyfer y dyfodol o safbwynt trefnu sut y cawn ein llywodraethu yn y wlad hon. Felly, a wnewch chi ailystyried y ffaith ichi beidio â chynnwys pleidleisio teg yn yr LCO arfaethedig hwn? Os oes gennych o ddifrif yr uchelgais a nodwch yn y datganiad, byddwn yn gobeithio y byddech yn rhoi sylw i hynny ac yn rhoi'ch arian ar eich gair.

**Brian Gibbons:** Yr oedd llawer o gyfraniad Peter yn ymdrin â'r hyn nad yw wedi'i gynnwys yn yr LCO arfaethedig yn hytrach na'r hyn sydd. Yr oedd ei gyfraniad yn gwbl ddilys; nid oes amheuaeth fod llawer o bobl yn edrych ar y system etholiadol ac yn ystyried a oes angen ei newid ac yn y blaen. Fodd bynnag, byddai'n gynamserol ac yn hynod oruchelgeisiol i Peter ddadlau, ar hyn o bryd, fod consensws clir, neu hyd yn oed gonsensws yn datblygu, ynglŷn â'r ffordd orau ymlaen. Yn wir, petaem yn mabwysiadu cyngor Peter yn y cyswllt hwn, byddem, ac ystyried y diffyg consensws, yn condemnio'r LCO arfaethedig hwn i analluedd, gan y byddai'n ei chael yn anodd denu cefnogaeth i'r materion pwysig y mae am ymdrin â hwy. Fel y dywedodd Peter, mae llawer o fusnes anorffenedig. Petaem yn cymryd ei gyngor, byddai'r busnes anorffenedig hwnnw'n aros yn anorffenedig am yr union reswm y mae wedi'i amlinellu—am nad yw'r consensws hwnnw'n bodoli. Fodd bynnag, yr ydym i gyd yn rhannu'r uchelgais y dylai'n democratiaeth fod yn fwy cynrychiadol.

Rhaid imi gyfaddef imi gael fy mhechu braidd—nid i'r graddau o ofyn ichi, Ddirprwy Lywydd, ddyfarnu arno—gan y defnydd o'r term 'gafael haearnaidd Llafur'. Nid yw'n dderbyniol, ac mae'n diraddio dewis democrataidd y rhai sydd wedi pleidleisio i'r Blaid Lafur dros y degawdau. Mae'r Blaid Lafur wedi ennill parch ac wedi ennill y pleidleisiau hynny. Os nad ydym yn denu cefnogaeth drwy'r amser ar hyn o bryd, yna mae angen inni bwyso a mesur hynny. Fodd bynnag, mae ei ddisgrifio fel gafael haearnaidd yn sarhad ar y rhai sydd wedi arfer eu hawl ddemocrataidd yn agored a dilyffethair yn y wlad hon. Nid wyf yn hoffi clywed y math hwnnw o siarad.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.